Hawdd ei deall

ADSS Cymru

Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru

Leading Social Services in Wales

# Cefnogi mwy o bobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig i ofyn am ofal cymdeithasol

## Adroddiad i Lywodraeth Cymru



Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan **Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru)**. Mae'n fersiwn hawdd ei deall o '**Cynyddu'r nifer o bobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig sy'n manteisio ar ofal cymdeithasol**'.

**Mai 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y byddwch chi dal angen cymorth i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Gallai geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** fod yn anodd i'w deall. Gallwch wirio beth mae'r holl eiriau mewn glas yn eu golygu ar **dudalen 20**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru)**. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.adss.cymru

**E-bost:** contact@adss.cymru

**Ffôn:** 01443 742384

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthym beth yw eich barn am y ddogfen hawdd ei deall hon, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**

**Cyflwyniad** ........ **4**

**Beth wnaethon ni** ........ **6**

**Beth wnaethon ni ei ddarganfod** ........ **8**

**Chwalu'r rhwystrau** ........ **11**

**Beth ddylai ddigwydd nawr** ........ **14**

Codi ymwybyddiaeth o Ofal Cymdeithasol ........ 15

Cefnogi gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n gweithio gyda chymunedau lleiafrifoedd ethnig ........ 17

**Geiriau anodd** ........ **20**

# Cyflwyniad



Mae pobl o **gymunedau lleiafrifoedd ethnig** yn llai tebygol o ofyn am gymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru.



Mae **cymunedau lleiafrifoedd ethnig** yn grwpiau o bobl a ddaw yn wreiddiol o wlad neu gefndir gwahanol i'r mwyafrif o bobl sydd yn y gymuned honno.



Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu rheoli gan Awdurdodau Lleol neu Gynghorau.



Maen nhw'n cefnogi pobl sydd angen cymorth i fyw mor annibynnol â phosib. Yr enw ar hyn yw Gofal Cymdeithasol.

**Mae Llywodraeth Cymru eisiau sicrhau fod pawb o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn:**



- Gwybod sut i gael gofal cymdeithasol os ydyn nhw ei angen.



- Derbyn gofal cymdeithasol sydd yn:

  - hawdd ei drefnu
  - parchu urddas pobl
  - parchu diwylliant a chredoau pobl.

**Gofynnodd Llywodraeth Cymru i ni gasglu gwybodaeth am:**



- Pam fod pobl o **gymunedau lleiafrifoedd ethnig** yn llai tebygol o ofyn am ofal cymdeithasol.



- Beth all gael ei wneud er mwyn helpu mwy o bobl o **gymunedau lleiafrifoedd ethnig** i ofyn am ofal cymdeithasol.

# Beth wnaethon ni

**Fe wnaethom gasglu gwybodaeth drwy wneud y canlynol:**



- Darllen dogfennau am ofal cymdeithasol a **chymunedau lleiafrifoedd ethnig**.



- Siarad â phobl o Gymru sydd yn:

  - rhan o **gymunedau lleiafrifoedd ethnig**.



  - gweithio i wasanaethau gofal cymdeithasol.



  - gweithio i Awdurdodau Lleol.



- Gweithio I sefydliadau sydd yn cefnogi pobl o **gymunedau lleiafrifoedd ethnig**. Er enghraifft Elusennau, Mudiadau **gwirfoddol**, Grwpiau cymunedol.



Mae **gwirfoddol** yn golygu gwaith nad ydych chi’n cal eich talu amdano.



Mae gan rai rhannau o Gymru fwy o **gymuned lleiafrifoedd ethnig** nac eraill.



Fe wnaethom sicrhau ein bod ni’n siarad gyda phobl o bob rhan o Gymru.

# Beth wnaethon ni ei ddarganfod



Dywedodd pobl wrthym ni am **rwystrau** i dderbyn gofal cymdeithasol i **gymunedau lleiafrifoedd ethnig**.



Mae **rhwystrau** yn golygu pethau sydd yn ei gwneud yn anodd i gael neu i wneud rhywbeth.



Mae'r **rhwystrau** yn cynnwys diffyg dealltwriaeth o'r canlynol:

- Beth mae gofal cymdeithasol yn ei olygu.
- Eu hawliau i dderbyn gofal cymdeithasol pan fyddan nhw ei angen.
- Sut i ofyn am ofal cymdeithasol.

**Dywedodd pobl na fyddent yn gofyn am ofal cymdeithasol oherwydd:**



- Maen nhw'n credu y dylai'r gofal ddod gan deulu a ffrindiau.



- Nid ydyn nhw'n credu eu bod nhw angen cymorth.



- Maen nhw wedi cael profiad gwael o ofal cymdeithasol yn y gorffennol.



- Maen nhw wedi clywed straeon negyddol am ofal cymdeithasol gan deulu neu ffrindiau.



- Nid ydyn nhw'n ymddiried yn y gwasanaeth. Er enghraifft, mae rhai pobl yn meddwl:

  - na fyddent yn derbyn y cymorth cywir.

  - y bydd y gwasanaethau yn rheoli eu bywydau.



- Maen nhw'n teimlo embaras neu'n bryderus i ofyn am help.

- Maen nhw’n cael trafferth cyfathrebu gyda gweithwyr gofal cymdeithasol oherwydd:



- Dydyn nhw ddim yn siarad yr un iaith.

- Maen nhw’n cael trafferth defnyddio technoleg. Er enghraifft, cyfrifiaduron neu ffonau clyfar.

- Dydyn nhw ddim yn deall y wybodaeth sy’n cael ei rhoi iddyn nhw.



- Maen nhw’n teimlo nad yw’r gweithwyr yn gwerthfawrogi:


- Eu haith

- Eu diwylliant

- Eu **credoau** crefyddol.



Cred yw’r pethau y mae pobl yn eu credu sy’n wir. Er enghraifft, gallai **Credoau** ymwneud â chrefydd neu wleidyddiaeth.



- Maen nhw’n credu na fydd gofal cymdeithasol yn parchu eu diwylliant neu eu **credoau** crefyddol.

# Chwalu'r rhwystrau



Dywedodd pob wrthym sut i wella mynediad i ofal cymdeithasol ar gyfer **cymunedau lleiafrifoedd ethnig**.



Fe wnaethon nhw ddweud y bydd mwy o bobl yn gofyn am ofal cymdeithasol:



- Os ydyn nhw'n deall beth yn union yw gofal cymdeithasol.



- Os ydyn nhw'n gwybod pa gymorth sydd ar gael.



- Os bydd gweithwyr gofal cymdeithasol yn galw pan maen nhw'n dweud eu bod nhw am wneud.




- Os yw'r wybodaeth am ofal cymdeithasol ar gael yn y fformat cywir: Er enghraifft:

  - yr iaith gywir

  - dogfennau hawdd eu deall.



- Os yw'r wybodaeth yn hawdd i'w darganfod. Er enghraifft, mewn:


  - sefydliadau cymunedol

  - hysbysebion ar y teledu

  - meddygfeydd.



- Os oes mwy o gyfleoedd i gwrdd â gweithwyr gofal cymdeithasol wyneb yn wyneb.



- Os ydyn nhw'n hyderus y bydd y gwasanaethau yn parchu eu **credoau** diwylliannol a chrefyddol.



- Os yw gweithwyr gofal cymdeithasol wedi eu hyfforddi i ddeall anghenion **cymunedau lleiafrifoedd ethnig**.



- Os nad yw gweithwyr gofal cymdeithasol yn awyddus i reoli'r ffordd mae pobl yn byw.



- Os yw gwasanaethau cymdeithasol yn penodi mwy o bobl sy'n perthyn i **gymunedau lleiafrifoedd ethnig**.



- Os ydyn nhw'n clywed mwy o straeon cadarnhaol am sut mae gofal cymdeithasol wedi helpu eraill yn eu cymuned.




- Os yw'r cyngor gan wasanaethau gofal cymdeithasol wedi ei ysgrifennu er mwyn ei rannu gyda theulu.

# Beth ddylai ddigwydd nawr



Mae angen mynediad gwell at ofal cymdeithasol ar bobl o **gymunedau lleiafrifoedd ethnig**.




Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru angen chwalu'r **rhwystrau**.



Fe ddylai cynlluniau nodi ffyrdd y gall gwasanaethau gofal cymdeithasol lleol gyd-weithio gyda:

- Byrddau Iechyd
- Elusennau
- Grwpiau Cymunedol a gwirfoddol




Dylai cynlluniau awdurdodau lleol fod yn eu lle erbyn Gorffennaf 2022.

## Dylai'r cynlluniau ganolbwyntio ar y canlynol:

## Codi ymwybyddiaeth o ofal cymdeithasol



Mae **cymunedau lleiafrifoedd ethnig** angen eu cefnogi er mwyn deall:

- Beth mae gofal cymunedol yn ei wneud.



- Eu hawliau i dderbyn y gofal pan fyddan nhw ei angen.

Dylai elusennau a grwpiau **gwirfoddol** dderbyn hyfforddiant ar sut i helpu pobl ddeall:



- Beth yw gofal cymdeithasol.
- Sut i ofyn am ofal cymdeithasol.

Dylai gwybodaeth am ofal cymdeithasol fod:




Yn hawdd i’w deall.




Ar gael mewn fformatiau gwahanol.



Yn hawdd i’w darganfod.

# Cefnogi gweithwyr gofal cymdeithasol sydd yn gweithio gyda chymunedau lleiafrifoedd ethnig

Dylai pob awdurdod lleol gynnig hyfforddiant i'r holl staff gofal cymdeithasol:




- I ddeall anghenion **cymunedau lleiafrifoedd ethnig**.



- I ddeall sut y gall **credoau** pobl effeithio ar y gofal maen nhw'n ei dderbyn.




Dylid adolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer **cymunedau lleiafrifoedd ethnig** yn rheolaidd.

Dylai cyfarfodydd gofal cymdeithasol gynnwys cyfleoedd i wneud y canlynol:



- Rhannu syniadau am gymorth da.



- Siarad am:

  - sut mae pethau'n mynd

  - beth sydd angen ei wella.

Dylai gwasanaethau gofal cymdeithasol wneud y canlynol:



- Cyflogi mwy o weithwyr sydd yn perthyn i **gymunedau lleiafrifoedd ethnig**.



- Annog mwy o bobl o **gymunedau lleiafrifoedd ethnig** i weithio fel gofalwyr cyflogedig.

- Casglu gwybodaeth am:

  - Bobl maen nhw'n eu cefnogi o **gymunedau lleiafrifoedd ethnig**.



  - Gofal cymdeithasol sydd yn cefnogi **credoau** diwylliannol a chrefyddol.



- Cefnogi mwy o sefydliadau i ddarparu gofal sy’n gwerthfawrogi diwylliant a **chredoau** pobl.



Bydd angen i Lywodraeth Cymru gefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol i ddilyn yr argymhellion rydym ni wedi’u gwneud.

# Geiriau anodd

## Cymunedau lleiafrifoedd ethnig

Mae cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn grwpiau o bobl a ddaw yn wreiddiol o wlad neu gefndir gwahanol i'r mwyafrif o bobl sydd yn y gymuned honno.

## Credoau

Y pethau mae pobl yn credu i fod yn wir.  Er enghraifft, gall y credoau fod am grefydd neu wleidyddiaeth.

## Gwirfoddol

Mae gwirfoddol yn golygu gwaith nad yw pobl yn cael eu talu amdano.

## Rhwystrau

Mae rhwystrau yn golygu pethau sydd yn ei gwneud yn anodd i gael neu i wneud rhywbeth.